

Egwyddorion Proffesiynol wrth weithio gyda phobl

Dyletswydd gofal a diogelu

- Rhaid i weithwyr proffesiynol amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a risg. (t. 81)
- Mae gweithredu'n brydlon ac uwchgyfeirio pryderon yn rhan o gyfrifoldeb proffesiynol. (t. 81)

Deall risg, bregusrwydd a gwynnwch

- Mae asesu risg yn hanfodol ar gyfer diogelwch ar waith. (tt. 79-80)
- Bregusrwydd yw bod yn agored i niwed a gall fod yn fyrdymor neu'n hirdymor. (t. 80)
- Mae gwynnwch yn cefnogi ymdopi ac yn lleihau effaith trallod. (t. 80)

Atebolrwydd Proffesiynol

- Mae gweithwyr proffesiynol yn gyfrifol am eu penderfyniadau, eu gweithredoedd a'u hymddygiad. (t. 88)
- Rhaid i weithwyr proffesiynol ddilyn codau ymddygiad a safonau rheoleiddiol. (t. 88)

Ymreolaeth ar waith

- Dylai ymarferwyr wneud penderfyniadau annibynnol, gwybodus. (tt. 88-89)
- Mae ymreolaeth yn cysylltu'n agos ag atebolrwydd mewn rolau proffesiynol. (t. 88)

Cyfathrebu effeithiol

- Mae cyfathrebu (llafar a dilafar) yn hanfodol ar gyfer asesu a diogelwch. (tt. 81-82)
- Mae'r ymarferydd yn adeiladu ymddiriedaeth, yn cefnogi diogelwch trwy gasglu a lledaenu gwybodaeth gywir. (t. 81)

Gofal sy'n canolbwyntio ar y Person

Wedi'i seilio ar: Ellidge, D., Arnold, J., Duncan, M. a Shepherd, D. (2023) 'Professional Practice and Work-Based Learning' in Barnard, A., Calabria, V. a Griffiths, L. (gol) (2023) Key themes in health and social care: a companion to learning. Ail argraffiad. Llundain; Routledge

- Dylai defnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o'u gofal a'u penderfyniadau eu hunain. (t. 82)
- Mae'r ymarferydd yn hyrwyddo annibyniaeth, dewis a chanlyniadau gwell ar sail unigol. (t. 82)

Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ('EBP')

- Mae'r ymarferydd yn cyfuno tystiolaeth ymchwil, arbenigedd ymarferydd, a gwerthoedd defnyddwyr gwasanaeth yn eu harfer. (t. 84)
- Maent yn sicrhau darpariaeth gofal ddiogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. (t. 84)

Sgiliau a chymwyseddau proffesiynol

- Gan gynnwys arsylwi, cyfathrebu a sgiliau meddwl beirniadol. (t. 81)
- Mae'r rhain yn cael eu datblygu trwy addysg, hyfforddiant a phrofiad. (t. 84)

Arweinyddiaeth a modelu rôl

- Dylai gweithwyr proffesiynol hyrwyddo gofal diogel, o ansawdd uchel ac arwain trwy esiampl. (t. 81)
- Mae arweinyddiaeth yn cynnwys gweithredu ar bryderon a chefnogi arfer da. (t. 81)

Arfer adfyfyriol a datblygiad parhaus

- Mae adfyfyrio a goruchwyllo yn helpu i wella sgiliau a hyder. (t. 81)
- Mae datblygiad parhaus yn hanfodol ar gyfer cymhwysedd proffesiynol (t. 81)

Arfer moesegol a chyfreithiol

- Mae arfer yn cael ei arwain gan ddeddfwriaeth (e.e., Deddf Cydraddoldeb 2010) a rheoleiddio proffesiynol. (t. 79)
- Rhaid i weithwyr proffesiynol weithredu'n foesegol o fewn fframweithiau cyfreithiol. (t. 79)